*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2019 – Medi 2019** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau am weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella.

**CRYNODEB**

2 Yn ystod hanner cyntaf 2019/20 fe wnaeth y Gwasanaeth ddelio â chyfanswm o 6,601 o alwadau brys 999/112, ac aeth at 2,653 o argyfyngau yn cynnwys tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig.

3 Mae'r tueddiad graddol am i lawr yn nifer y prif danau wedi parhau, ac aethpwyd at 8.1% yn llai yn hanner cyntaf 2019/20 nag yn hanner cyntaf 2015/16.

4 Yn dilyn cynnydd sydyn yn nifer y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt yn llynedd, mae'r niferoedd wedi dychwelyd i lefelau mwy cyfarwydd eleni.

5 Aethpwyd at gyfanswm o 1,205 o danau diangen yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn – sef mymryn yn llai nag yn yr un cyfnod y llynedd.

6 I'r gwrthwyneb, aeth y Gwasanaeth at fymryn mwy o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn nag yn yr un cyfnod y llynedd.

7 Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi cynyddu 17.2% eleni (er y dylid nodi bod y ffigwr yn 2018/19 yn anghyffredin o isel). Achosodd y tanau hyn un farwolaeth a dau anaf difrifol.

**ARGYMHELLIAD**

8 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

9 Yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r Aelodau, mae adroddiad monitro hanner y flwyddyn am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2019.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Cymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yn y cynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2019/20. |
| Cyllideb | Cymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o ddigwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Cymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion newidiol arno gyda newidiadau yn y lefel y digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a monitro perfformiad, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofyn. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**Hanner Blwyddyn**
**Ebrill – Medi 2019**

**Ffigyrau dros dro ydynt, a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**


**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **ADRODD YNGHYLCH GWEITHGARWCH DIGWYDDIADAU** | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori (prif danau, tanau eilaidd, tanau simnai) | 2 |
| Tanau yn ôl cymhelliad (damweiniol/bwriadol) | 3 |
| Tanau yn yr Awyr Agored | 4 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau Diangen yn ôl categori (larymau tân awtomatig, didwyll, maleisus) | 5 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig yn ôl categori | 6 |
| | |
| **MONITRO O GYMHARU AG AMCAN GWELLA A LLESIANT 'A'** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 9 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | 11 |

**1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau**

1.1 Yn ystod hanner cyntaf 2019/20, cafodd cyfanswm o 6,601 o alwadau brys 99/112 eu trin gan y Gwasanaeth, ac aethpwyd at 2,653 o argyfyngau.

1.2 Mae'r lefelau gweithgarwch gwaelodol ar gyfer digwyddiadau wedi parhau'n gymharol gyson dros y pum mlynedd o gyfnod adrodd, sef 2015/16 – 2019/20 (Ebrill i Fedi), heblaw am gynnydd yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn deillio o brosiectau cydweithredol megis cyd-ymateb a mynd at godymau yn 2017/18, a'r tanau yn yr awyr agored yn ystod haf poeth a sych 2018.




## 2.0 Tanau, yn ôl categori

2.1 Mae'r tueddiad graddol am i lawr yn nifer y prif danau yr aethpwyd atynt wedi parhau, ac aethpwyd at 8.1% yn llai yn hanner cyntaf 2019/20 nag yn yr un cyfnod yn 2015/16.

2.2 Yn ystod hanner cyntaf 2019/20, mae nifer y tanau eilaidd wedi dychwelyd i lefelau mwy cyfarwydd yn dilyn cynnydd anghyffredin yn y gweithgarwch yn ystod 2018/19.

2.3 Mae nifer y tanau simnai yn parhau'n isel ymhob rhan o ardal y Gwasanaeth, ac er bod y rhan fwyaf o'r tanau hyn yn digwydd mewn ardaloedd mwy poblog fel Caernarfon a Wrecsam, mae rhai ardaloedd llai poblog wedi cael nifer uwch o danau simnai yn y cyfnod adrodd, megis Bala, Llanberis a Dinbych.

**Nifer y tanau yr aethpwyd atynt, fesul categori, gyda'r cyfartaledd 3 blynedd**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | 545 | 551 | 513 | 513 | 467 | 526 |
| Tanau Eilaidd | 624 | 460 | 590 | 881 | 535 | 644 |
| Tanau Simdde | 57 | 41 | 33 | 41 | 35 | 38 |

### 3.0 Tanau, yn ôl cymhelliad

3.1 O'r 501 o brif danau yr aethpwyd atynt yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, roedd 394 wedi cael eu categoreiddio'n rhai damweiniol (2.1% yn fwy nag yn hanner cyntaf y llynedd) a 107 wedi cael eu categoreiddio'n rhai bwriadol (10.5% yn llai nag yn hanner cyntaf y llynedd).


3.2 Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae mwy o danau eilaidd damweiniol nag sydd o danau eilaidd bwriadol. Yn dilyn y cynnydd sylweddol yn nifer y tanau eilaidd damweiniol a gofnodwyd yn ystod hanner cyntaf 2018/19, mae'r niferoedd wedi dychwelyd i lefelau mwy cyfarwydd yn 2019/20.



## 4.0 Tanau yn yr Awyr Agored

4.1 Mae tanau yn yr awyr agored yn cael eu cofnodi fel is-adran i danau eilaidd, gyda thanau glaswelltir, coetir a chnydau yn 38% o'r holl danau yn yr awyr agored rhwng Ebrill a Medi yn y flwyddyn 2019/20.


4.2 Cafwyd tueddiad cyffredinol am i lawr yng nghyfran y tanau awyr agored sy'n rhai glaswelltir, coetir a chnydau o'u cymharu â mathau eraill o danau awyr agored. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yng nghyfran y tanau glaswelltir, coetir a chnydau yn 2018/19, gyda chanran y rhain yn 62% o'r holl danau yn yr awyr agored.



## 5.0 Galwadau Diangen

5.1 Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 1,205 o alwadau diangen yn ystod hanner cyntaf 2019/20. Dyma 1.6% o ostyngiad o gymharu â hanner cyntaf 2018/19, er ei fod yn uwch nag yr oedd yn 2015/16 pan gyflwynwyd y newid i bolisi larymau tân awtomatig. Cyn y newid, roedd y Gwasanaeth wedi bod yn mynd at hyd at 2,000 o alwadau diangen yn ystod yr un cyfnodau o chwe mis.

5.2 Mae nifer y galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt yn parhau'n isel, a hynny'n rhannol oherwydd gallu gweithredwyr yr Ystafell Reoli i adnabod a herio galwyr y maent yn amau sy'n honni'n ffug fod argyfwng.





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 501 | 651 | 602 | 611 | 633 | 621 |
| Didwyll | 492 | 484 | 509 | 598 | 549 | 530 |
| Maleisus | 22 | 21 | 18 | 15 | 23 | 18 |
| Cyfanswm | 1,015 | 1,156 | 1,129 | 1,224 | 1,205 | 1,170 |

## 6.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig


6.1 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi prosiectau cydweithredol megis 'dull mynediad' ac 'ar goll o gartref' gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC), er bod cynlluniau peilot eraill (megis rhoi cymorth i godymau a chyd-ymateb) wedi dod i ben.

6.2 Er bod nifer y digwyddiadau 'dull mynediad' yr aethpwyd atynt yn parhau'n gymharol isel, mae wedi cynyddu 58.8%. Mae'r cynllun hwn yn golygu bod criwiau'n gallu cael mynediad i eiddo, gan roi cymorth i staff YGAC pan fo angen iddynt gyrraedd cleifion sydd angen gofal meddygol ond sy'n methu eu helpu eu hunain.





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| GTFf | 105 | 107 | 99 | 107 | 110 |
| Arall heblaw GTFf (ddim yn cynnwys prosiectau) | 203 | 207 | 241 | 195 | 202 |
| Dulliau Mynediad | 0 | 0 | 0 | 17 | 27 |
| Tîm Cynorthwyo Cymunedol - helpu hefo codymau | 0 | 54 | 384 | 120 | 0 |
| Ar goll o Gartref | 0 | 4 | 9 | 18 | 6 |
| Digwyddiad Meddygol - Cyd-ymatebwr | 0 | 56 | 86 | 0 | 0 |

6.3 Aeth y Gwasanaeth at 110 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, sef 2.8% yn fwy nag yn yr un cyfnod y llynedd. Dyma'r nifer uchaf yr aethpwyd atynt ers 2014/15. O'r rhai yr aethpwyd atynt, roedd 30% yn golygu bod y Gwasanaeth wedi defnyddio offer i dynnu o leiaf un person wedi anafu allan o'r cerbyd.



**7.0 Monitro mewn perthynas ag Amcan Gwella a Llesiant A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Er bod nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi cynyddu 17.2% yn ystod 2019/20, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19, mae hyn yn mynd yn ôl i lefelau mwy cyson gan fod ffigwr 2018/19 yn anghyffredin o isel. Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn 2019/20 yn parhau'n is na'r hyn a gofnodwyd yn 2015/16, 2016/17 a 2017/18.




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tân (Damweiniol) | 194 | 215 | 190 | 157 | 184 | 187 |
| Tân (Bwriadol) | 21 | 17 | 21 | 11 | 16 | 16 |


## 8.0 Anafusion oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

8.1 Yn ystod chwe mis cyntaf 2019/20, cofnodwyd un farwolaeth o ganlyniad i dân damweiniol mewn cartref. Ers 2015/16 (Ebrill i Medi yn unig), mae saith o bobl wedi colli eu bywydau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi ac roedd pob un o'r saith dros hanner can mlwydd oed.

8.2 Mae nifer yr anafiadau difrifol yn 2019/20 wedi parhau'n isel, ac mae nifer yr achosion o archwiliadau rhagofalus a mân anafiaau wedi bod yn gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod nifer yr anafiadau fymryn yn uwch eleni na'r llynedd, roedd y nifer a gofnodwyd y llynedd yn eithriadol o isel.

8.3 Mae'r rhan fwyaf o bobl (77.8%) a gafodd eu hanafu eleni o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi wedi cael eu rhoi yn y categori 'wedi'u llethu gan nwy, mwg neu nwyon gwenwynig; mygu', ac roedd llosgiadau yn 11.1%.

**Nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaeth | 0 | 3 | 1 | 2 | 1 |
| Anafiadau - Difrifol | 2 | 4 | 2 | 0 | 2 |
| Anafiadau - Bychan | 28 | 12 | 23 | 8 | 12 |
| Cymorth Cyntaf | 18 | 16 | 10 | 11 | 16 |
| Archwiliad Rhagofalus | 31 | 29 | 20 | 8 | 15 |

**9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach**

9.1 Fel rhan o'i amcanion gwella a llesiant, mae'r Awdurdod wedi gosod targed iddo'i hun i geisio sicrhau y bydd 30% o'r holl Archwilidau Diogel ac Iach sy'n cael eu cynnal wedi deillio o atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner i ni, a hynny er mwyn canolbwyntio adnoddau ar y bobl sydd â'r risg mwyaf.

9.2 Yn ystod hanner cyntaf eleni, roedd 2,656 (29.2%) o'r Archwiliadau Diogel ac Iach yn deillio o atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner i ni. Er bod hyn fymryn yn is na 30% mae'n dal yn aros yn agos at y targed y mae'r Awdurdod wedi'i osod iddo'i hun ac mae'n dystiolaeth fod gwaith partneriaethol yn parhau i ddigwydd gyda'r sector gwirfoddol/trydydd sector a phartneriaid yn y cynghorau sir.



**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi mewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd yn digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Galwadau Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a)Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b)Trychinebau mawr;<br>c)Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |